# DATGANIAD I'R WASG

## Cynllun Profi, Menter Gorllewin Sir Gâr, yn ehangu a datblygu

Nod Cynllun Profi a weinyddir gan Fenter Gorllewin Sir Gâr yw cynorthwyo pobl ifanc i wella eu sgiliau byd gwaith ynghyd â dangos iddynt sut y gall sgiliau'r iaith Gymraeg fod o fantais iddynt yn eu gyrfa.

Mae platfform www.profi.cymru wedi'i chreu gyda chynnwys digidol, apelgar i gynorthwyo pobl ifanc i ddod yn ymwybodol o'u sgiliau a'u cryfderau unigol er mwyn ymgeisio am gyfleoedd yn y dyfodol, a'u hannog i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr cymdeithas.

Mae'r cynllun, a ddechreuodd fel peilot yn 2016, yn parhau i fynd o nerth i nerth. Erbyn hyn cyllidir Cynllun Profi gan Gronfa Gymunedol y Loteri, Cynllun Arfor – Llwyddo'n Lleol ac yn fwyaf diweddar gan Gronfa Ffyniant Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn caniatáu i'r cynllun i esblygu, datblygu a gwella'n barhaus gan wneud gwahaniaeth arwyddocaol i'r bobl ifanc sy'n cofrestru ar y platfform ac sy'n derbyn cymorth a chefnogaeth wyneb yn wyneb. Mae hyn hefyd yn golygu bod gwasanaeth Cynllun Profi'n cael ei ehangu i ardaloedd eraill a bod mwy o bobl ifanc yn gallu manteisio a chael gwerth o gynnwys y cynllun.

Mae cyllid Cronfa Ffyniant Cyngor Sir Gâr yn mynd i'n galluogi i ddatblygu cymhwyster trwy Agored Cymru er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn ennill cymhwyster neu achrediad am eu gwaith. Mae unedau Agored Cymru'n unedau a grëwyd ar y cyd gyda chyflogwyr ac felly'n paratoi pobl ifanc yn ymarferol at fyd gwaith.

Yn ogystal â chreu platfform, llwyddwyd i ddatblygu cwis sgiliau rhyngweithiol a chreu cyfres o ffilmiau a phodlediadau sy'n arddangos y cyfleoedd a'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer sectorau twf lleol. O ganlyniad i gyllid ychwanegol trwy Llwyddo'n Lleol a'r Gronfa Ffyniant rydym yn medru sicrhau fod trawstoriad ehangach o sectorau ar draws ardaloedd lleol amrywiol yn rhan o'r cynllun.

Bwriad Cynllun Profi yw addysgu pobl ifanc am y cyfleoedd cyffrous sydd ar gael o fewn ein cymunedau ac yna eu hannog i aros, neu symud yn ôl i'r ardal yn dilyn cyfnod yn y coleg neu'n y brifysgol.

Yn ôl Meinir Evans, Cydlynydd y Cynllun : **'Gan fod sgiliau pawb yn wahanol, rydym wedi creu adnodd rhyngweithiol a fydd yn cynorthwyo pobl ifanc i adnabod eu cryfderau a'r sgiliau sydd angen iddynt wella ar gyfer y byd gwaith. Rydym yn falch iawn o'r ffaith ein bod wedi gallu creu adnodd arloesol, gan taw dyma'r unig gwis sgiliau rhyngweithiol yr ydym yn ymwybodol ohono yn yr iaith Gymraeg.'**

Rhan gyffrous o Gynllun Profi yw'r cydweithio gyda busnesau lleol er mwyn sicrhau fod y bobl ifanc sy'n cofrestru ar y platfform yn cael cynigion arbennig ar nifer o wasanaethau a nwyddau. Mae'r Cynllun yn cynnig Carden Wobrwyo Profi sy'n caniatáu i'r bobl ifanc wario'n lleol ond gan gynnig gostyngiad deniadol iawn. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r busnesau lleol sydd wedi ymrwymo i fod yn rhan o Garden Wobrwyo Profi.

Rydym yn awyddus i barhau i ddatblygu ac ehangu ymhellach a chroesewir pob adborth wrth i ni sicrhau fod ein pobl ifanc yn llwyddo ac yn cyrraedd eu llawn dwf.

**Nodiadau i Olygyddion:**

**ARFOR – Llwyddo'n Lleol 2050**

Ariennir Profi yn rhannol drwy brosiect ARFOR – Llwyddo'n Lleol.

- Mae ARFOR yn rhaglen sy'n cael ei ariannu drwy Llywodraeth Cymru drwy'r cytundeb cydweithredol a Phlaid Cymru. Mae'n raglen ar y cyd gan Gynghorau Sir Gâr, Ceredigion, Gwynedd ac Ynys Môn sy'n edrych i ddefnyddio mentergarwch a datblygu'r economi i gefnogi cadarnleoedd y Gymraeg a, thrwy hynny, cynnal yr iaith. Am fwy o wybodaeth am rhaglen ARFOR gweler: **www.rhaglenarfor.cymru**
- Un o brosiectau Rhaglen ARFOR yw Llwyddo'n Lleol 2050. Gydag allfudo teuluoedd a phobl ifanc yn cael ei gydnabod fel un o'r prif resymau am ddirywiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y cadarnleoedd, nod Llwyddo'n Lleol 2050 yw darbwyllo pobl ifanc a theuluoedd ifanc sydd mewn peryg o adael neu sydd eisoes wedi ymadael bod modd cael dyfodol disglair, gyda swydd dda o fewn maes cyffrous, yn eu cymunedau cynhenid. Am fwy o wybodaeth am brosiect Llwyddo'n Lleol 2050 gweler: **www.llwyddonlleol2050.cymru**

Ariennir Profi hefyd gan Pawb a'i Le, Cronfa Gymunedol y Loteri a chronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y DU. Am fwy o wybodaeth am gronfa'r Loteri neu'r gronfa ffyniant ewch i:

https://www.tnlcommunityfund.org.uk/welsh/funding/programmes/national-lottery-awards-for-all-wales

https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/busnes/cronfa-ffyniant-gyffredin-y-deyrnas-unedig/

**Cyfryngau cymdeithasol:**

Facebook - Cynllun Profi

Instagram - @cynllunprofi

YouTube - @mentergorllewinsirgar4555

Podlediadau - Pod Profi (spreaker.com)

Platfform - www.profi.cymru

Am ragor o fanylion cysylltwch ar post@profi.cymru neu ar 01239 721 934

**PRESS RELEASE**

## Menter Gorllewin Sir Gâr's Cynllun **Profi** Programme is expanding

The aim of the Cynllun Profi Programme, administered by Menter Gorllewin Sir Gâr (the Welsh Language Initiative for West Carmarthenshire) is to assist young people to improve their skills in the world of work together with showing them how Welsh language skills can be of advantage to them in their career.

The www.profi.cymru platform has been created with appealing, digital content to help young people become aware of their individual skills and strengths in order to apply for future opportunities, and encourage them to live a fulfilling life as valued members of society.

The programme, which started as a pilot in 2016, continues to go from strength to strength. Cynllun Profi Programme is now funded by the Community Lottery Fund, Arfor - Llwyddo'n Lleol and most recently by the UK Government's Shared Prosperity Fund. This allows the programme to evolve, develop and improve continuously making a significant difference to the young people who register on the platform and who receive help and support face to face. This also means that Cynllun Profi Programme's service is expanded to other areas and that more young people can take advantage and gain value from the content of the scheme.

Carmarthenshire County Council's Shared Prosperity Fund will enable us to develop a qualification through Agored Cymru to ensure that learners gain a qualification or accreditation for their work. Agored Cymru units are units created jointly with employers and therefore prepare young people practically for the world of work.

As well as creating a platform, we succeeded in developing an interactive skills quiz and creating a series of films and podcasts that showcase the opportunities and skills needed for local growth sectors. As a result of additional funding through Llwyddo'n Lleol and the Shared Prosperity Fund we are able to ensure that a wider cross-section of sectors across various local areas are part of the plan.

The Cynllun Profi Programme aims to educate young people about the exciting opportunities available within our communities and then encourage them to stay, or move back to the area following a period at college or university.

According to Meinir Evans, Project Coordinator of the Cynllun Profi Programme: **'Since everyone's skills are different, we have created an interactive resource that will help young people to identify the strengths and the skills they need to improve as they seek to join the world of work. We are very proud of the fact that we have been able to create an innovative resource, as this is the only interactive skills quiz that we are aware of in the Welsh language.'**

An exciting part of the Cynllun Profi Programme is the collaboration with local businesses to ensure that the young people who register on the platform get special offers on a number of services and goods. The programme offers a Profi Rewards Card which allows the young

people to spend locally but offering a very attractive discount. We are very grateful to the local businesses who have committed to being part of the Profi Rewards Card.

We are keen to continue to develop and expand further and all feedback is welcomed as we ensure that our young people succeed and reach their full potential.

Social Media:

Facebook - Cynllun Profi

Instagram - @cynllunprofi

YouTube - @mentergorllewinsirgar4555

Podcasts - Pod Profi (spreaker.com)

Platform - www.profi.cymru

For more information contact us on post@profi.cymru or on 01239 721 934